



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



SIARTER AR GYFER

ARFERION GWAITH DIOGEL – COVID-19

Iechyd a llesiant ein gweithlu, ymwelwyr i'r safle a'r gymuned leol yw ein prif flaenoriaeth yn ystod y pandemig coronafeirws.

Mae gan adeiladu cartrefi rôl hanfodol i'w chwarae wrth helpu ein heconomi i sicrhau adferiad o effaith y coronafeirws. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi parhau gweithgaredd adeiladu lle mae'n ddiogel gwneud hynny. Mae adeiladu cartrefi yn cefnogi cannoedd o filoedd o swyddi a miloedd o fusnesau. Mae hefyd yn darparu biliynau o bunnau i wella seilwaith lleol yn yr ardaloedd lle caiff cartrefi newydd eu hadeiladu.

Rydym i gyd yn rhannu'r cyfrifoldeb am sicrhau y gall y safle hwn weithredu'n ddiogel ac yn unol â chynghor y Llywodraeth.

Gwnawn hynny drwy:

- ▶ Gweithio gyda'n gweithlu, is-gontractwyr a chyflenwyr i ddatblygu a rhannu arferion gwaith diogel
- ▶ Dim ond ymgymryd â gweithrediadau y gwyddom y gellir eu gwneud yn ddiogel
- ▶ Sefydlu mynedfa ac allanfa diogel i'r safle.
- ▶ Darparu cyfleusterau rhannu ac ardaloedd parcio diogel.
- ▶ Rhoi cyflwyniad ar ddiogelwch i bob ymwelydd i'r safle i sicrhau eu bod yn deall yn llawn y mesurau a weithredir ar y safle i'w diogelu hwy ac eraill
- ▶ Sicrhau fod mesurau yn eu lle i alluogi unrhyw un ar y safle i gydymffurfio gyda rheoliadau a chanllawiau ymbellhau cymdeithasol a chymryd camau i liniaru i ostwng risg trosglwyddo haint lle nad yw hynny'n bosibl
- ▶ Bod â chyfleusterau llesiant glân a manau golchi dwylo a hylif diheintio dwylo ar draws y safle
- ▶ Datblygu polisiâu manwl fydd yn galluogi cwsmeriaid i ymweld â safleoedd a gweld cartrefi yn ddiogel ac yn unol â'r holl ganllawiau ymbellhau cymdeithasol pan maent yn ailagor
- ▶ Cyfathrebu gyda'n cymdogion fel y gwyddant ein bod yn gweithio i ganllawiau'r Llywodraeth
- ▶ Sicrhau y caiff cydymffurfiaeth gyda'r rheolau hyn ei fonitro'n agos iawn. Bydd yn rhaid i unrhyw berson a ganfyddir yn torri'r rheolau hyn adael y safle ac efallai na chaniateir iddynt ddychwelyd.

Gofynnwn i'r holl ymwelwyr i'n safle:

- ▶ Pan fyddant yn cyrraedd, i gofrestru gyda'r tîm rheoli safle i gael cyflwyniad ar coronafeirws
- ▶ Aros adref os oes ganddynt unrhyw symptomau coronafeirws neu'n byw gyda rhywun sydd â symptomau o'r fath
- ▶ Lle'n bosibl, deithio ar ben eu hunain neu gyda phobl eraill sy'n byw gyda nhw a dilyn canllawiau ymbellhau cymdeithasol os yn teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus
- ▶ Rhoi amser i ddeall a chydymffurfio gyda'r holl ganllawiau a ddarparwyd, yn neilltuoel yng nghyswllt rheoliadau ymbellhau cymdeithasol
- ▶ Hysbysu rheolwr/cydlunydd y safle a enwir islaw

[doder ENW, RHIF CYSWLLT a CHYFTEIRIAD E-BOST]

Gall ein rheolwyr safle a thimau gwerthu ateb unrhyw gwestiynau sydd gan weithwyr ac ymwelwyr.

Caiff y rheolau hyn eu diweddarau yn unol ag unrhyw newidiadau yng nghanllawiau'r Llywodraeth.

Cefnogir y Siarter hwn gan Cartrefi Cymunedol Cymru a Ffederasiwn y Meistri Adeiladu Cymru.

Stewart Baseley
Executive Chairman HBF

Julie James
Minister for Housing
and Local Government



Os ydych yn gweithio ar y safle hwn neu'n aelod o'r gymuned sydd ag unrhyw bryderon cysylltwch â ni yn gyfrinachol ar

*Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi (HBF) yw'r corff sy'n cynrychioli'r diwydiant adeiladu cartrefi yn Lloegr a Chymru